## PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## ADRODDIAD AR Y DDEDDF ARBED YNNI CARTREF

### PWRPAS

1. Bwriad y papur yw gofyn am farn y Pwyllgor yngln â'r adroddiad y mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol ei baratoi dan Ddeddf Arbed Ynni Cartref 1995.

### CRYNODEB

2. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi llunio'u hadroddiadau arbed ynni yn unol â'r Ddeddf – eu strategaethau. Maent wedi nodi bod potensial i sicrhau gwelliant heb fod ymhell o 30% dros gyfnod o 10 mlynedd o 1 Ebrill 1997 ymlaen. Yn ychwanegol at hyn, maent wedi dechrau adrodd yngln â'r cynnydd mewn perthynas â'u strategaethau.

3. Mae'r adroddiad hwn, y mae'n ofynnol ei gyhoeddi dan y Ddeddf (fel y'i newidiwyd gan Adran 45 Deddf Llywodraeth Cymru) er mwyn ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn ymwneud â gweithgareddau mewn perthynas â'r Ddeddf Arbed Ynni Cartref gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 1997 hyd 31 Mawrth 2000. Mae'n amlinellu:

- cyflwyniad i'r Ddeddf Arbed Ynni Cartref;
- y cyfarwyddyd a'r cymorth sydd ar gael i awdurdodau lleol;
- y cynnydd yr adroddwyd amdano gan awdurdodau lleol;
- y gefnogaeth a'r cymorth y gellid ei gynnig yn y dyfodol er mwyn helpu awdurdodau lleol.

4. Mae tystiolaeth yn adroddiadau'r awdurdodau lleol yn dangos gwelliant o 2 ¼% dros y tair blynedd hyd ddiwedd Mawrth 2000. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bryderus nad yw cynnydd ar y raddfa hon yn ddigonol os yw awdurdodau lleol am gyflawni'r gwelliannau posibl a nodwyd. Mae angen i sawl awdurdod lleol gynyddu nifer eu gweithgareddau yng nghyswllt y Ddeddf Arbed Ynni Cartref a sylweddoli a derbyn ei bod yn ddyletswydd arnynt wneud hynny er mwyn gwella amgylchiadau byw eu trigolion.

5. Mae'r Ddeddf Arbed Ynni Cartref yn ddeddfwriaeth bwysig a fydd, ar y cyd â pholisïau eraill sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, effeithlonrwydd ynni a dileu tlodi tanwydd, gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r DG, yn sicrhau cynnydd gwirioneddol wrth leihau effaith newid yn yr hinsawdd a darparu arbedion ariannol, gwell amodau byw a chynhesrwydd rhesymol i bob teulu ac i'r gymuned gyfan. Bydd iechyd pobl nad ydynt mwyach yn gorfod byw mewn cartrefi oer a llaith yn gwella a bydd cyflogaeth ar

gynnydd, fel y bydd mwy o swyddi’n dod ar gael ym maes effeithlonrwydd ynni a sectorau cysylltiedig (fel cynhyrchu a gosod). Bydd incwm defnyddiadwy teuluoedd sy’n elwa o arbedion yn cynyddu (ynghyd â’r potensial i hybu’r economi lleol o ganlyniad) a bydd yr amgylchedd yn gwella gan fod llai o rai nwyon deuocsid a nwyon eraill sy’n gysylltiedig â thwymo byd eang yn cael eu gollwng i’r awyr.

6. Mae potensial y Ddeddf Arbed Ynni Cartref yn bellgyrhaeddol ac yn sylweddol. Ni ddylai’r potensial hwn fod yn gostus iawn i awdurdodau lleol ar lefel leol, os ymdrinnir ag ef mewn ffordd briodol, a thrwy bartneriaethau. Yn anffodus, mae’r dystiolaeth yn awgrymu nad yw’r potensial yn cael ei sylweddoli eto.

**ARGYMHELLIAD**

7. Mae’r Cynulliad a’r Llywodraeth yn ymroddedig i effeithlonrwydd ynni ac i’r Ddeddf Arbed Ynni Cartref, fel y dengys y rhaglen effeithlonrwydd ynni helaeth a’r cymorth ymarferol sydd ar gael. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol annog awdurdodau lleol i ddangos ymroddiad tebyg, gan ddefnyddio’r cymorth ymarferol hwn, er mwyn sicrhau’r gwelliannau a nodwyd mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni yn eu strategaethau ar gyfer y Ddeddf Arbed Ynni Cartref. Byddai hyn yn unol â diddordeb ehangach awdurdodau lleol yn Agenda Leol 21 sy’n ymwneud â hybu cynaliadwyedd lleol. Byddai ymroddiad o’r fath o fudd i’r cymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**AMSERIAD**

8. Cyflwynir yr adroddiad hwn sy’n nodi’r cynnydd a wnaethpwyd yn ystod y tair blynedd gyntaf er sefydlu’r Ddeddf fel rhan o rwymedigaethau statudol y Cynulliad Cenedlaethol i adrodd yngln â chynnydd.

**CEFNDIR**

**Cyflwyniad**

9. Dechreuodd Deddf Arbed Ynni Cartref 1995 (y cyfeirir ati fel "Deddf 1995", "y Ddeddf" neu "HECA") fel Mesur Aelodau Preifat, wedi ei gyflwyno gan Diana Maddock, AS y Democratiaid Rhyddfrydol dros Christchurch ar y pryd, yn sesiwn Seneddol 1994/95. Cafodd Gydsyniad Brenhinol ar 28 Mehefin 1995, a daeth i rym yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar 1 Ebrill 1996. Penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd oedi cyn ei chyflwyno yng Nghymru er mwyn i’r Awdurdodau Unedol newydd gael ychydig o amser i gael eu traed tanynt cyn ymgymryd â’r dyletswyddau newydd hyn. Roedd y Ddeddf yn dynodi pob awdurdod lleol yn y DG oedd â chyfrifoldebau tai yn "awdurdodau arbed ynni" (22 ohonynt yng Nghymru) ac yn sefydlu nifer o ofynion a dyletswyddau.

10. Daeth Deddf Arbed Ynni Cartref 1995, a Deddf Arbed Ynni 1996, sy’n cyflwyno newidiadau iddi o safbwynt y diffiniad o "adeiladau preswyl", i rym yng Nghymru ar 1 Ebrill 1997.

11. Mae’r Ddeddf yn canolbwyntio ar y posibiliadau ar gyfer cynyddu effeithlonrwydd ynni yn y stoc dai.

Mae’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fel awdurdodau arbed ynni lunio adroddiadau sy’n nodi camau, a fyddai’n arwain at welliannau sylweddol mewn effeithlonrwydd ynni adeiladau preswyl yn eu hardaloedd. Cyflwynwyd yr adroddiadau cyntaf i Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn Nhachwedd 1997. Gosodwyd targed o welliant o 30% mewn effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau preswyl erbyn 2007 i awdurdodau lleol o gymharu â pherfformiad y stoc ar 1 Ebrill 1997. Mae’n ofynnol hefyd i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiadau cynnydd blynyddol a’u hanfon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

12. Mae effeithlonrwydd ynni mewn tai yn hanfodol i les cymdeithasol ac economaidd pobl sy’n byw yng Nghymru. Mae’n mynd i’r afael â thlodi tanwydd, yn creu swyddi ac yn arwain at fanteision o safbwynt iechyd pobl sy’n byw mewn cartrefi oer a llaith. Gall gynhyrchu arbedion ariannol gwirioneddol, sylweddol a pharhaol trwy filiau tanwydd is. Pwysleisir pwysigrwydd y mater hwn hefyd gan y ffaith fod gan o leiaf 250,000 o gartrefi Cymru brofiad o dlodi tanwydd yn ôl yr amcangyfrif yn 1996. (Diffinnir tlodi tanwydd yn fras fel y teuluoedd hynny y mae angen iddynt wario mwy na 10% o incwm y teulu er mwyn sicrhau trefniadau gwresogi boddhaol; er enghraifft, 21°C yn yr ystafell fyw a 18°C yn yr ystafelloedd eraill a ddefnyddir).

13. Mae awdurdodau lleol yn cael eu gweld fel hwyluswyr newid er mwyn annog perchnogion cartrefi a landlordiaid i fabwysiadu camau effeithlonrwydd ynni fel mater o drefn. Nodwyd bod awdurdodau lleol yn hanfodol i lwyddiant y Ddeddf. Mae amrediad y swyddogaethau a gyflawnir ganddynt yn eu galluogi i gymell a dylanwadu ar eraill. Hwy hefyd sydd yn y safle gorau i ymateb yn uniongyrchol i safbwyntiau a dyheadau lleol, gan roi pwyslais lleol ar bolisïau cenedlaethol, a sicrhau trwy hynny bod modd eu darparu’n ymarferol. Mae hyn hefyd yn gyson ag egwyddorion Agenda 21 ac â’r dull gweithredu sy’n seiliedig ar bartneriaeth a nodir yn Rhaglen Newid Hinsawdd y DG.

14. Nid yw’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod arbed ynni weithredu’r holl gamau y mae wedi eu nodi. Bydd rhai camau y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol awdurdod, megis gwaith i dai nad yw’n berchen arnynt. Rôl ganolog awdurdodau yw annog a chymell perchnogion cartrefi a landlordiaid i fabwysiadu camau effeithlonrwydd ynni – darparu cymhelliant priodol, cyngor a chyfarwyddyd er mwyn sicrhau bod y camau’n cael eu mabwysiadu, a bod yr arbedion mewn costau ac ynni a ddaw yn sgil hyn yn cael eu gwireddu.

**Cyfarwyddyd**

15. Ar ôl ymgynghori â’r cymdeithasau awdurdodau lleol, awdurdodau lleol a chyrff ac unigolion eraill sydd â diddordeb, cyhoeddwyd cyfarwyddyd cynhwysfawr ar gyfer awdurdodau arbed ynni yng Nghymru gan y Swyddfa Gymreig ar y pryd yn Chwefror 1997 fel Cylchlythyr 14/97 y Swyddfa Gymreig. Roedd y Cylchlythyr yn canolbwyntio ar baratoi adroddiadau arbed ynni, yn awgrymu ffyrdd o wneud tybiaethau da yngln ag effeithlonrwydd ynni tebygol adeiladau preswyl, yn darparu awgrymiadau yngln â’r mathau o gamau y byddai awdurdodau’n hoffi eu hystyried, ac yn cynnig cyngor yngln â sawl ffynhonnell arall a allai gynnig gwybodaeth ddefnyddiol.

16. Roedd y Cylchlythyr hefyd yn diffinio "gwelliant sylweddol", i ddibenion y Ddeddf, fel gwelliant o 30% dros gyfnod o 10 mlynedd gan ddefnyddio 1 Ebrill 1997 fel man cychwyn.

17. Yn Chwefror 1997 darparwyd pecyn perthynol ar ffurf taenlenni gan y Swyddfa Gymreig ar y pryd i bob awdurdod arbed ynni. Paratowyd y taenlenni ar gyfer y Swyddfa Gymreig ar y pryd gan y Sefydliad Ymchwil i Adeiladau. Roedd y taenlenni'n gyfrwng elfennol i alluogi pob awdurdod i asesu perfformiad effeithlonrwydd ynni sylfaenol adeiladau preswyl yn eu hardal, a nodi camau a fyddai'n debygol o arwain at y gwelliant sylweddol sy'n ofynnol dan y Ddeddf. Fe'u bwriadwyd yn bennaf ar gyfer yr awdurdodau hynny nad oedd ganddynt unrhyw drefniadau eraill er mwyn sefydlu perfformiad presennol y stoc.

18. Yn gynnar yn 1998, cyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, ar y cyd ag Uned Gefnogi Arbed Ynni y Sefydliad Ymchwil i Adeiladau, gyfarwyddyd strategol manwl ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru – Good Practice Guide 250 – yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni mewn tai. Fel rhan o'r fframwaith cyfarwyddyd sy'n cefnogi gweithrediad y Ddeddf, mae'r Canllaw'n pwysleisio pwysigrwydd integreiddio ymgyrchoedd effeithlonrwydd ynni gyda pholisïau a rhaglenni ehangach sy'n ymwneud â thai a'r amgylchedd.

19. Gan fod cynnwys yr adroddiadau cynnydd cyntaf a gyflwynwyd i'r Swyddfa Gymreig ar y pryd yn Ebrill 1999 yn amrywio mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cyhoeddi mwy o gyfarwyddyd yngln â llunio adroddiadau cynnydd yn ymwneud â'r Ddeddf. Cyhoeddwyd y ddogfen gyfarwyddyd ychwanegol hon, sy'n dwyn y teitl "HECA Report – Checklist of information required" ym Mai 2000. Y bwriad oedd atgoffa awdurdodau yngln â'r gofynion sylfaenol, o safbwynt gwybodaeth, fel sy'n cael eu nodi yng Nghylchlythyr 14/97 y Swyddfa Gymreig.

20. Er mwyn rhoi mwy o gymorth i awdurdodau arbed ynni gyda'r gwaith o baratoi eu hadroddiadau cynnydd blynyddol mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddiweddar wedi cyflogi ymgynghorwyr i lunio cyfarwyddyd, ac yn bwysicach fyth, becyn methodoleg a meddalwedd cysylltiedig yn cynnwys, os yn bosibl, dybiaethau safonedig. Bydd y cyfarwyddyd a'r meddalwedd cyfunedig yn galluogi pob awdurdod arbed ynni i asesu effeithiau eu camau effeithlonrwydd ynni mewn ffordd fwy cyson a dilys. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdodau unigol a'r Cynulliad Cenedlaethol i fod yn fwy hyderus yngln â'r adroddiadau blynyddol. Bydd defnyddio'r meddalwedd yn hwyluso'r gwaith o ddadansoddi a dwyn ynghyd y wybodaeth a gafwyd trwy'r adroddiadau cynnydd blynyddol. Disgwylir y bydd yr ymgynghorwyr yn cyflwyno'u cynnyrch terfynol yn Chwefror 2001.

21. Mae'r cyfarwyddyd sydd ar gael yn dangos ymroddiad y Cynulliad Cenedlaethol i effeithlonrwydd ynni a Deddf Arbed Ynni Cartref 1995. Mae hefyd yn cydnabod bod y Ddeddf yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth a fydd, os bydd yr awdurdodau arbed ynni'n darparu'r gwelliannau'n briodol, yn arwain at newid a manteision gwirioneddol i'r gymuned leol a'r amgylchedd cenedlaethol.

**Cymorth Arall i Awdurdodau**

22. Mae'r Llywodraeth yn rhoi blaenoriaeth sylweddol i faterion effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd, ac mae wedi gweithio'n gyson er mwyn sicrhau gwelliant sylweddol yn nelwedd effeithlonrwydd ynni. Mae llawer o gymorth a chefnogaeth wedi ei chynnig er mwyn darparu strategaethau'r Ddeddf trwy nifer o raglenni. Mae'r Llywodraeth yn cynnig cefnogaeth ariannol i'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

annibynnol, ac i'r Rhaglen Arferion Gorau Effeithlonrwydd Ynni, ac mae'r naill a'r llall yn cynnig cefnogaeth a chyngor ymarferol i awdurdodau lleol gyda'u dyletswyddau dan y Ddeddf Arbed Ynni Cartref.

23. Yn 2000/01 mae Adran yr Amgylchedd yn darparu hyd at £2.0 filiwn i raglen yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yng Nghymru er mwyn hybu effeithlonrwydd ynni yn y cartref ac mewn cwmnïau bach. Dylai'r rhaglen hon fod o gymorth mawr i awdurdodau wrth ymgymryd â strategaethau'r Ddeddf. Er enghraifft:

- mae rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth o 4 Canolfan Gynghori Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru yn cynnig cyngor diduedd rhad ac am ddim i gwsmeriaid yn y sector domestig. Mae cwsmeriaid sy'n derbyn cyngor a ddarperir gan y canolfannau'n arbed yn agos at £54 y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio'r gwasanaeth a ddarperir gan y Canolfannau hyn, i'w helpu i ddatblygu agweddau cynghori a hybu eu strategaethau, ac er mwyn casglu a dwyn ynghyd ddata ar welliannau effeithlonrwydd ynni a sicrhawyd gan deuluoedd;
- mae rhaglen hyrwyddo bwysig yr Ymddiriedolaeth, "*Effeithlonrwydd Ynni",* yn annog effeithlonrwydd ynni yn y cartref; a
- hyd yn hyn, mae dros 75,000 o bobl er 1994 wedi elwa o gynlluniau anogaeth yr Ymddiriedolaeth, sy'n cael eu hariannu gan Adran yr Amgylchedd, er mwyn annog buddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni – gan gynnwys rheolyddion gwresogi, bwyleri cyddwyso, inswleiddiad waliau dwbl a goleuadau amledd uchel.

24. Mae rhaglen weithredu'r Ymddiriedolaeth ar gyfer y Ddeddf Arbed Ynni Cartref, a lansiwyd yn 1996, yn rhaglen bartneriaeth sydd wedi ei chynllunio'n benodol er mwyn helpu awdurdodau arbed ynni â'u rhwymedigaethau dan y Ddeddf. Fe'i bwriadwyd er mwyn rhoi hwb cychwynnol i nifer o ymgyrchoedd gan awdurdodau arbed ynni ac er mwyn dangos partneriaethau effeithiol mewn gweithgaredd ysgogol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi buddsoddi £919,000 ynddi, a disgwylir y bydd y buddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni ddeg gwaith cymaint â'r swm hwn.

25. Mae'r Rhaglen Arferion Gorau Effeithlonrwydd Ynni (sy'n cael ei rheoli gan Adran yr Amgylchedd, â chyllideb flynyddol o tua £15 miliwn, yn cynyddu i bron £17 miliwn, £20 miliwn a £23 miliwn yn ystod y tair blynedd o 1999/2000), yn hyrwyddo ac yn darparu amrediad eang o wybodaeth dechnegol, cyfarwyddyd ac astudiaethau achos ar effeithlonrwydd ynni, gan gynnwys cyfarwyddyd a fydd yn galluogi sefydliadau i gymharu eu perfformiad ynni eu hunain â pherfformiad eraill mewn sefyllfaoedd tebyg. Mae'n ymdrin â'r holl sectorau diwydiant a masnach, gan gynnwys y sector cyhoeddus a thai, ac fe'i hanelwyd at bobl megis cynllunwyr adeiladau a rheolwyr.

26. Y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref Newydd ar gyfer Cymru yw prif raglen y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer inswleiddio cartrefi'r teuluoedd mwyaf anghenus. Mae gan y Cynllun gyllideb flynyddol o £6.375 miliwn ar hyn o bryd a bydd yn cynyddu i £9.275 miliwn ar gyfer 2001/02. Mae cyllidebau'r Cynulliad ar gyfer y Cynllun yn 2002/03 a 2003/04 wedi eu cymeradwyo yn ddiweddar fel £10.925 miliwn a £12.925 miliwn yn y drefn honno. Gall y Cynllun ddarparu cefnogaeth ymarferol tuag at gynnydd dan y Ddeddf. Ond gan fod Cynlluniau'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth ar gyfer

ymdrin â thlodi tanwydd yn ymwneud â lleiafrif yn unig o’r stoc dai, ni ddylent gael eu hystyried gan awdurdodau fel ffordd ymarferol o ddarparu’r holl welliannau effeithlonrwydd ynni a ddisgwylir gan strategaethau’r Ddeddf.

27. Mae’r Llywodraeth wedi gweithio gyda BG Transco (y prif gwmni cludo nwy) er mwyn datblygu "Rhaglen Gynhesrwydd Rhesymol") i gefnogi gosod nwy modern – systemau gwresogi sy’n cael eu tanio, gan gynnwys gwresogi cymunedol, ac inswleiddio hyd at 1 filiwn o gartrefi erbyn 2007. Bydd union nifer y cartrefi a fydd yn cael eu gwella yn dibynnu ar y nifer a fydd yn cymryd rhan yn y cynllun, yn enwedig awdurdodau lleol a chyrff eraill sy’n darparu tai cymdeithasol. Fel rhan o’r rhaglen, mae Transco hefyd yn ariannu’r gwaith o gynyddu’r hyfforddiant sydd ei angen er mwyn cwrdd â’r galw am beirianwyr gwresogi ychwanegol o ganlyniad i’r cynllun - 3,000 o swyddi â chrefft ar gyfer gosodwyr nwy ac o bosibl 7,000 o swyddi eraill heb gymaint o grefft (e.e. gwneud arolygon tai, gosod deunydd inswleiddio, cefnogaeth weinyddol), 3,000 ohonynt gobeithio’n cael eu recriwtio trwy’r Fargen Newydd.

28. Mae’r Rhaglen Cynhesrwydd Rhesymol yn defnyddio trefniadau newydd sy’n seiliedig ar gyllid prydles er mwyn annog pobl i inswleiddio’u tai a gosod gwres canolog nwy. Mae hyn yn galw am newid yn y rheolau treth sy’n ymwneud â phrydlesu cyfarpar gwresogi, a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y Canghellor ym Mawrth 2000. Mantais y cynllun i ddarparwyr tai yw bod cost gosod yn is (gan ei bod yn seiliedig ar brydles a lwfansau cyfalaf) a gellir ariannu’r cynllun yn fwy hyblyg; gobeithir y bydd hyn yn eu hannog i wario mwy ar welliannau, neu o leiaf i gael mwy o fudd o’r arian y maent yn ei wario.

29. Roedd Cyllideb Gwanwyn 2000 yn ymestyn y gyfradd TAW is o 5% o osod deunyddiau arbed ynni *â chymorth grant* i osod deunyddiau arbed ynni ym mhob cartref. Ymestynnwyd y gyfradd is hefyd i osod, cynnal a chadw a thrwsio systemau gwres canolog â chymorth grant yng nghartrefi pobl gymwys dros 60 oed, a gosod systemau gwresogi â chymorth grant mewn cartrefi incwm isel. Mae hyn yn golygu y bydd arian grant yn mynd ymhellach, ac y bydd mwy o deuluoedd yn gallu cael cymorth.

**Adroddiadau Arbed Ynni**

30. Roedd yr adroddiadau arbed ynni cyntaf a baratowyd gan awdurdodau lleol – eu strategaethau mewn gwirionedd - i fod i gael eu cyflwyno i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd cyn 30 Tachwedd 1997.

31. Roedd yr adroddiadau arbed ynni, ar y cyfan, yn cynnwys gwybodaeth galonogol yngln â dichonoldeb cyflawni rhwymedigaethau’r Ddeddf. Roedd y rhan fwyaf o’r awdurdodau lleol wedi nodi amrediad eang o gamau arbed ynni, ac wedi cadarnhau bod potensial i gyrraedd y ffigwr mynegol o welliant o 30% cyn pen 10 mlynedd o 1 Ebrill 1997.

**Yr Adroddiadau Cynnydd Cyntaf (1 Ebrill 1997 hyd 30 Tachwedd 1998)**

32. Cynhwyswyd yr adroddiadau cynnydd cyntaf a baratowyd gan awdurdodau lleol fel rhan o Strategaeth Dai a Chynlluniau Gweithredol yr awdurdodau lleol ar gyfer 1999/2000. Roedd angen cyflwyno’r rhain i’r Swyddfa Gymreig ar y pryd cyn 1 Ebrill 1999.

33. Ar y cyfan, roedd ansawdd a defnyddioldeb y rhan fwyaf o’r adroddiadau cynnydd yn siomedig. Dim ond 6 awdurdod lleol ddangosodd ganran y gwelliant a wnaethpwyd mewn effeithlonrwydd ynni tai er 1 Ebrill 1997. Nid oedd yn ymddangos bod llawer o ddefnydd wedi ei wneud o’r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd yng Nghylchlythyr 14/97 y Swyddfa Gymreig. A bod yn deg i’r awdurdodau lleol mae’n bosibl bod y nodiadau byr ar y Ddeddf a oedd yn nogfen Cyfarwyddyd y Swyddfa Gymreig ar Strategaethau Tai a Chynlluniau Gweithredol (1999-2000) wedi camarwain rhai ohonynt i gredu bod angen i’w hadroddiadau cynnydd hefyd fod yn fyr. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn esgus dros y diffyg gwybodaeth ystadegol yn y rhan fwyaf o’r adroddiadau cynnydd.

34. Roedd y prinder gwybodaeth yn yr adroddiadau cynnydd cyntaf yn golygu ei bod yn amhosibl cyflwyno adroddiad cyfunol i’r Cynulliad Cenedlaethol. O ganlyniad cyhoeddwyd mwy o gyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau lleol ym Mai 2000, sef "HECA Report – Checklist of information required".

**Yr Ail Adroddiadau Cynnydd (1 Ebrill 1997 hyd 31 Mawrth 2000)**

35. O ganlyniad i’r profiad a gafwyd gyda’r adroddiadau cynnydd cyntaf ac mewn ymdrech i roi mwy o sylw i adroddiadau’r Ddeddf gwahanwyd yr adroddiadau cynnydd oddi wrth broses y Strategaethau Tai a’r Cynlluniau Gweithredol a’u cyflwyno i’r Cynulliad Cenedlaethol ar wahân. Roedd angen cyflwyno’r ail adroddiadau cynnydd ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 1997 hyd 31 Mawrth 2000 (tair blynedd gyntaf y Ddeddf) cyn 30 Medi 2000.

36. Er mawr siom dim ond un adroddiad cynnydd a gyflwynwyd cyn y dyddiad cau hwn. Erbyn dechrau Rhagfyr 2000 roedd cyfanswm o 16 adroddiad cynnydd wedi eu cyflwyno. O’r 6 adroddiad cynnydd oedd ar goll roedd 5 awdurdod lleol wedi egluro pam nad oedd ganddynt adroddiad cynnydd ond ni chafwyd unrhyw eglurhad gan yr awdurdod lleol sydd ar ôl. Fodd bynnag, mae ansawdd cyffredinol yr ail adroddiadau cynnydd yn llawer gwell na’r rhai cyntaf.

37. Gellir nodi bod y gwelliant yng Nghymru ar gyfer effeithlonrwydd ynni tai yn ystod y cyfnod o 3 blynedd y cyfeiriwyd ato uchod yn 2.25%, sy’n cyfateb i 0.75% y flwyddyn. Mae amrediad y gwelliannau effeithlonrwydd ynni yr adroddwyd amdanynt gan yr 16 awdurdod lleol ar gyfer y cyfnod o 3 blynedd fel a ganlyn:-

| % Gwelliant – Amrediad | Nifer yr Awdurdodau yn yr Amrediad |
|---|---|
| 0.01 i 0.99 | 2 |
| 1.00 i 1.99 | 7 |

| | |
|---|---|
| 2.00 i 2.99 | 3 |
| 3.00 i 3.99 | 2 |
| 4.00 i 4.99 | 1 |
| 5.00 a mwy | 1 |
| Heb gyflwyno adroddiadau | 6 |

38. Mae'n bosibl y gellir priodoleddu'r ffigyrau gwelliant isel ar y cyfan yn rhannol i effeithiolrwydd y systemau arolygu a ddefnyddir gan awdurdodau lleol. Mae lle da i gredu y bydd y meddalwedd a'r cyfarwyddyd arolygu newydd sy'n cael eu datblygu ac a fydd yn cael eu cyhoeddi gan y Cynulliad Cenedlaethol yn gynnar yn 2001 yn arwain at welliant sylweddol yn y trefniadau arolygu yn y dyfodol.

39. Er gwaetha'r pwynt blaenorol, fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd angen cynnydd sylweddol mewn gweithgareddau effeithlonrwydd ynni ar draws yr holl sectorau tai yn y dyfodol os yw'r targed o welliant o 30% i'w gyrraedd.

**Adroddiadau Tlodi Tanwydd**

40. O ganlyniad i adroddiadau cynnydd y Ddeddf, ac er mwyn cydnabod y pwysigrwydd cynyddol sy'n cael ei roi gan y Cynulliad, gofynnwyd i awdurdodau arbed ynni lunio adroddiadau ar eu polisïau, eu strategaethau a'u llwyddiannau wrth ddelio gyda thlodi tanwydd. Roedd angen cyflwyno adroddiad byr, ar gyfer y cyfnod o Ebrill 1999 hyd Fawrth 2000, i'r Cynulliad Cenedlaethol cyn 31 Hydref 2000. Cyhoeddwyd cyfarwyddyd cynhwysfawr ar adroddiadau am dlodi tanwydd yn Awst 2000 gan y Cynulliad Cenedlaethol.

41. Ddechrau Rhagfyr 2000 dim ond 4 Adroddiad Tlodi Tanwydd oedd wedi eu cyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol. Bu'n rhaid gohirio unrhyw asesiad o weithgareddau yr ymgymerwyd â hwy gan awdurdodau gyda'r bwriad o ddelio gyda thlodi tanwydd hyd nes y cyflwynir mwy o adroddiadau.

**Holiadur y Ddeddf Arbed Ynni Cartref**

42. Yn Rhagfyr 2000 gofynnwyd i swyddogion awdurdodau lleol oedd â chyfrifoldeb am y Ddeddf Arbed Ynni Cartref lenwi holiadur byr drwy'r post yn edrych ar eu gweithgareddau a'u barn (Atodiad A). Derbyniwyd ymateb gan 14 o'r 22 awdurdod lleol sydd yng Nghymru cyn y dyddiad cau o 18 Rhagfyr 2000. Mae'r gyfradd ymateb o 64% yn cael ei hystyried yn gynrychiolaeth foddhaol o swyddogion y

Ddeddf yng Nghymru yn gyffredinol. Ceir manylion am rai o ganfyddiadau'r holiadur isod, gyda'r holl ffigyrau (oni nodir yn wahanol) yn seiliedig ar yr 14 ymateb a ddaeth i law.

43. Mae hanner yr awdurdodau lleol a ymatebodd i'r holiadur heb swyddog dynodedig ar gyfer y Ddeddf. Mae pump o'r 7 swyddog sydd wedi eu dynodi ar gyfer y Ddeddf yn neilltuo llai na 50% o'u hamser ar gyfer y Ddeddf. Yn hanner yr awdurdodau lleol a ddychwelodd yr holiadur treulir cyfanswm o ddim mwy na 25% o amser un swyddog llawn-amser yn rhoi sylw i'r Ddeddf.

44. Mae tri awdurdod lleol nad ydynt yn defnyddio unrhyw fath o strategaethau na grantiau dewisol i wella effeithlonrwydd ynni eu tai lleol ar hyn o bryd (21%). Mae pum awdurdod lleol heb weithredu cynllun prynu mewn swp/disgownt (36%).

45. Mae pum awdurdod lleol nad ydynt yn cyd-drefnu Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref newydd yn y sector cyhoeddus ar hyn o bryd (36%) tra mae tri nad ydynt yn gwneud hynny yn y sector preifat (21%).

46. Mae'r rhan fwyaf o swyddogion y Ddeddf Arbed Ynni Cartref yn gweld diffyg buddsoddiad cyfalaf/ refeniw gan eu hawdurdod lleol fel problem ddifrifol wrth weithredu camau er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni (79%). Yn ychwanegol at hyn, mae'r prinder staff sydd wedi eu dynodi ar gyfer y Ddeddf mewn awdurdodau lleol yn cael ei weld fel arwydd pendant o hyn gan swyddogion y Ddeddf (71%).

47. Roedd 11 o swyddogion y Ddeddf o'r farn bod y targed o 30% a chasglu data yn broblemau difrifol (79%).

48. Roedd diffyg ymroddiad i'r Ddeddf ymhlith uwch Swyddogion ac aelodau'r Cyngor yn cael ei ystyried yn broblem ddifrifol gan 9 o swyddogion y Ddeddf (64%). Roedd yr agwedd hon hefyd yn cael ei hystyried yn amlwg yn y sector preifat. Adroddodd cyfanswm o 10 o swyddogion y Ddeddf fod y diffyg cymhelliant a'r apathi a ddangosir gan deuluoedd tuag at effeithlonrwydd ynni yn broblem ddifrifol (71%).

49. Yn olaf, dim ond 2 o swyddogion y Ddeddf oedd yn meddwl ei bod yn "weddol debygol" y byddid yn cyrraedd targed y Ddeddf ar gyfer gwelliant o 30% mewn effeithlonrwydd ynni (14%). O'r 12 swyddog arall, roedd pump yn meddwl bod y targed o 30% "ddim yn debygol iawn" (36%) tra roedd 7 yn meddwl bod y targed o 30% yn "annhebygol iawn" (50%).

**Cefnogaeth a Chymorth yn y Dyfodol**

50. Yn Nhachwedd 1999 sefydlwyd y Grwp Rhyng-Weinidogol ar Dlodi Tanwydd er mwyn cael braslun strategol o'r polisïau a'r cynlluniau perthnasol sy'n gysylltiedig â thlodi tanwydd, a datblygu a chyhoeddi strategaeth ar gyfer y DG yn nodi amcanion yn gysylltiedig â thlodi tanwydd, targedau a pholisïau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn. Cyhoeddwyd drafft ymgynghorol y Strategaeth hon yn Ionawr 2001.

51. Roedd y Strategaeth yn canolbwyntio’n bennaf ar gamau er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni a lleihau costau tanwydd ar gyfer teuluoedd sydd â phrofiad o dlodi tanwydd yn hytrach na mesuryddion incwm, sy’n cael eu trafod mewn polisïau tlodi ac allgau cymdeithasol ehangach.

52. Bydd y Llywodraeth a’r Cynulliad Cenedlaethol yn ceisio dileu malltod tlodi cymdeithasol, i’r graddau y mae hynny’n ymarferol, erbyn 2010. Yng Nghymru, y targed interim penodol fydd cynorthwyo 30,000 o deuluoedd, sy’n debygol o brofi tlodi tanwydd, trwy’r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref Newydd erbyn 2003.

53. Mae’r Gyllideb a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 7 Rhagfyr yn cynnwys £9.275 miliwn, £10.925 miliwn a £12.925 miliwn tuag at Gynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref Newydd ar gyfer 2001/02, 2002/03 a 2003/04 yn y drefn honno. Bydd hyn yn cynyddu allgynnyrch disgwyliedig y Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref Newydd i 37,000 erbyn Mawrth 2003 gyda chynnydd pellach o 25% mewn allgynnyrch blynyddol ar gyfer 2003/04.

54. Daeth y Ddeddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni, a gyflwynwyd gan David Amess â chefnogaeth y Llywodraeth ac ar draws y pleidiau, i rym yn Nhachwedd 2000. Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Ysgrifennydd Gwladol Lloegr a Chynulliad Cenedlaethol Cymru "gyhoeddi a gweithredu strategaeth er mwyn lleihau tlodi tanwydd a phennu targedau ar gyfer ei gweithredu". Mae cyhoeddi a darparu Strategaeth y DG ar Dlodi Tanwydd yn cyflawni amodau’r Ddeddf Cartrefi Cynnes.

55. Mae’r Llywodraeth yn cefnogi’r Bartneriaeth Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer cartrefi, a lansiwyd yn Ebrill 2000 ac sy’n cael ei hwyluso gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Mae’r Bartneriaeth yn cynnig ffordd o ddod â phawb sydd â diddordeb mewn effeithlonrwydd ynni domestig ac mewn brwydro yn erbyn tlodi tanwydd at ei gilydd i fynd o amgylch eu busnes yn fwy proffidiol ac i gyflawni eu hamcanion yn fwy effeithiol.

56. Yn dilyn ei hadolygiad o reoleiddio gwasanaethau (gan gynnwys cyflenwadau ynni) mae’r Llywodraeth wedi cyflwyno’r cynllun Safonau Perfformiad Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer y DG er mwyn hyrwyddo effeithlonrwydd ynni. Bydd y cynllun 2 flynedd hwn, a sefydlwyd yn Ebrill 2000, yn darparu buddsoddiad blynyddol gan y gwasanaethau mewn camau arbed tanwydd. Yng Nghymru bydd y cynllun hwn yn werth yn agos at £6 miliwn dros gyfnod o ddwy flynedd y cynllun.

**CYDYMFFURFIANT**

57. Mae hawl y Cynulliad Cenedlaethol i’w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio adroddiadau ar gamau arbed ynni a thlodi tanwydd, o safbwynt adeiladau preswyl yn eu cymunedau, wedi eu cynnwys yn Neddf Arbed Ynni Cartref 1995. Newidir yr uchod gan Ddeddf Arbed Ynni 1996 i’r graddau y mae’r diffiniad o "adeiladau preswyl" yn berthnasol. Mae’r hawliau hyn wedi eu trosglwyddo i’r Cynulliad Cenedlaethol dan y gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau a’u dirprwyo i Ysgrifennydd y Cynulliad. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â chysondeb na phriodoldeb. Mae ACO wedi gweld cynnwys y cyflwyniad ac yn fodlon ag ef.

**GOBLYGIADAU ARIANNOL**

58. Bydd unrhyw wariant yn dod o’r cyllidebau a gymeradwywyd gan y Cynulliad. Mae’n amhosibl dweud beth fydd y goblygiadau ariannol i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, ers pan gyflwynwyd y Ddeddf, a’i goblygiadau, yng Nghymru yn Ebrill 1997, disgwylir y bydd unrhyw wariant gan awdurdodau lleol yn dod o’u cyllidebau presennol hwy.